

1. Rhowch y rhifau 1 i 6 yn y sgwariau bach.

   Rhaid i gyfanswm y pedwar rhif ar bob cylch fod yn hafal.



2. Sawl triongl hafalochrog y gellir ei ffurfio trwy gysylltu´r dotiau hyn?

   Ym mhob triongl mae un dot ar bob cornel.



Ateb _____________ triongl

3. Teflir dau ddis cyffredin

Lluosir y ddau rif sy´n ymddangos.

Pa rifau rhwng 1 a 20 <u>na</u> ellir eu cael fel atebion?

Ateb ______________________________

4. Prynais rai stampiau dosbarth cyntaf am 24c yr un a rhai ail ddosbarth am 18c yr un. Gwariais union £1.50. Sawl stamp 24c a sawl stamp 18c a brynais?

Ateb ________ stamp 24c ________ stamp 18c.

5. Faint yw´r ongl rhwng bysedd cloc:

a) am un o´r gloch Ateb ________

b) am hanner awr wedi dau o´r gloch Ateb ________

6. 0, 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9

Defnyddiwch y digidau hyn i wneud 5 eilrif sy´n cynnwys dau ddigid yr un.
Ni chaniateir ailadrodd digidau.

Ateb ______________________________

Nawr defnyddiwch y digidau i wneud 5 rhif, pob un yn lluosrif 7 .

Ateb ______________________________

Nawr defnyddiwch y digidau i wneud 6 rhif cysefin.

Ateb ______________________________

7. Sawl llythyren sydd yn yr ateb cywir i´r cwestiwn hwn?

a) un b) dau c) tri ch) pedwar d) pump

8. Rhowch y rhifau o 1 i 9 yn y sgwâr hwn, un ymhob un o´r blychau:


| | 6 | 252 | 240 |
|---|---|---|---|
| 20 | | | |
| 162 | | | |
| 112 | | | |

Rhaid i bob rhif sydd wrth ochrau´r sgwâr fod yn lluoswm rhifau´r rhes neu´r golofn.


9. Mae´r pum rhif sydd ar bob llinell o´r seren yn adio i 32.

Defnyddir pob rhif cyfan o 1 i 12.

Nodwch y rhifau coll.



10. Gallwn bwyso 5kg o siwgr ar y glorian hon fel hyn:




Llenwch y bylchau yn y tabl i ddangos sut i bwyso´r pwysau a nodir.
Defnyddiwch y pwysynnau 1kg, 3kg a 9kg yn unig.

| i bwyso | ochr A | ochr B |
|---|---|---|
| 1kg | 1kg | — |
| 2kg | | |
| 3kg | 3kg | — |
| 4kg | | |
| 5kg | 9kg | 1kg,3kg |
| 6kg | | |
| 7kg | | |
| 8kg | | |
| 9kg | 9kg | — |
| 10kg | | |
| 11kg | | |
| 12kg | | |
| 13kg | | |